# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 09-09 (p2) Atodiad 1 : 26 Mawrth 2009**

## Golau gwyrdd ar gyfer system trafnidiaeth gynaliadwy £28.5 miliwn i Gaerdydd

Mae beiciau am ddim, bysus am ddim a system barcio fodern yn mynd i wneud Caerdydd yn esiampl ddisglair o deithio cynaliadwy yng Nghymru, diolch i fuddsoddiad £28.5 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad a Chyngor Caerdydd.

Heddiw, bydd Ieuan Wyn Jones, y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, yn cyhoeddi bod y brifddinas wedi'i dewis fel dinas fraenaru ar gyfer Menter Trefi Teithio Cynaliadwy a bydd yn elwa ar fuddsoddiad miliynau o bunnoedd mewn amrywiaeth o fesurau trafnidiaeth gynaliadwy. Os bydd yn llwyddiant, gallai'r cysyniad arloesol hwn gael ei gyflwyno ledled Cymru.

Bydd y buddsoddiad dros y ddwy flynedd nesaf yn gweddnewid y ffordd mae pobl yn teithio i Gaerdydd ac o'i chwmpas, a bydd yn cynnwys gwasanaeth bysus gwennol i ganol y ddinas yn rhad ac am ddim, cyfleusterau parcio a theithio a gwell llwybrau beicio a cherdded.

Bydd hefyd yn golygu bod modd codi Pont-y-Werin, man croesi afon Elai i gerddwyr a beicwyr rhwng Penarth a'r Pentref Chwaraeon.

I ddechrau, menter ddwy flynedd fydd hon, a chaiff £14.5 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad ac £14 miliwn gan Gyngor Caerdydd, ond mae'r Cyngor yn gobeithio cymryd camau pellach yn dilyn hynny.

Meddai Mr Jones:

Mae Caerdydd wedi'i dewis fel yr ardal gyntaf i elwa ar y buddsoddiad sylweddol hwn i greu system trafnidiaeth drefol gynaliadwy.

Mae lefelau cymudo yng Nghaerdydd ac o'i chwmpas wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ddatblygu a gweithredu amrywiaeth o bosibiliadau trafnidiaeth arloesol a fydd o fantais i'r 210,000 o bobl sy'n teithio o amgylch y ddinas bob dydd.

Os bydd yn llwyddiannus, mae'n bosibl y caiff y model arloesol hwn ei gyflwyno mewn trefi a dinasoedd eraill yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn cynnwys cyfuniad o welliannau i'r seilwaith ac i'r gwasanaethau gan geisio lleihau tagfeydd yn y ddinas a'i gwneud yn haws mynd a dod yn y ddinas ei hun a'r ardal gyfagos.

Ymhlith y gwelliannau i'r seilwaith mae datblygu gwell coridorau bws, gwneud Stryd Fawr/Stryd y Santes Fair yn ardal gerdded yn y dyfodol, a bws am ddim rhwng canol y dref a'r Bae. Fe fydd yna rwydwaith beicio gwell hefyd yng nghanol y ddinas, a strategaeth barcio newydd gan gynnwys cyfleusterau parcio a theithio ar lwybrau cymudo allweddol.

Bydd hyn yn rhedeg ochr yn ochr â rhaglen o wasanaethau gwell, gan gynnwys gwell gwybodaeth am deithio, cynlluniau rhannu teithiau, clybiau ceir a llogi beiciau am ddim.

Dywedodd Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai:

Rydyn ni wedi mynd yn llawer rhy ddibynnol ar y car ac mae angen inni ystyried ffyrdd eraill, gwyrddach o deithio. Mae defnyddio mwy o fysus a beiciau yn rhywbeth cwbl gadarnhaol. Bydd yn golygu bod llai o geir ar y ffordd gan arwain at Gymru iachach. Bydd yn lleihau tagfeydd, yn gostwng lefel allyriadau carbon ac yn cyfrannu i'n hymdrech yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.

Dywedodd Delme Bowen, Aelod Gweithredol Cyngor Caerdydd dros Drafnidiaeth:

Mae'r ffaith ein bod ni wedi ennill statws dinas teithio cynaliadwy gyntaf Cymru yn dyst i waith caled iawn pawb yng Nghyngor Caerdydd. Mae'n tynnu sylw at y manteision aruthrol sydd ar gael i gannoedd o filoedd o bobl sy'n gwneud eu ffordd i mewn i'n dinas ni bob dydd ac mae'n dangos ein hymrwymiad ni i wneud y ddinas yn fwy cynaliadwy byth yn y dyfodol.

**Dywedodd Lee Waters, Cyfarwyddwr Sustrans Cymru:**

**Mae Sustrans yn cefnogi'n llawn y weledigaeth i wneud prifddinas Cymru yn Ddinas Teithio Cynaliadwy. Dri deg mlynedd yn ôl, roedd yr un nifer o feiciau yn Copenhagen ag sydd yng Nghaerdydd heddiw. Bellach, mae dros draean o bob taith gymudo ym mhrifddinas Denmarc ar gefn beic. Mae'r potensial yng Nghaerdydd i gyrraedd y nod hwn. Drwy gydweithio, fe allwn ni annog pobl i ddefnyddio eu ceir yn llai a dewis teithio mewn ffyrdd sydd o fudd i'w hiechyd a'r amgylchedd.**

**11 Mawrth 2009**